Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

4 Medi 2024

Annwyl Rieni/ Warcheidwaid,

Croeso cynnes yn ôl ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd, y ddeugeinfed ym mywyd yr ysgol , a chroeso arbennig i rieni a gwarcheidwaid newydd.

Canlyniadau Arholiadau Allanol 2024

Llongyfarchiadau gwresog i ddysgwyr ar eu canlyniadau TGAU a Safon Uwch da iawn. Ymfalchïwn yn eu llwyddiant a diolchwn yn arbennig i'r staff am eu holl waith caled yn eu paratoi.

TGAU 2024	**%**
5+ TGAU A*/A	22%
5+ TGAU A*-C	75%
5+ TGAU A*-C yn cynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg	65%
5+ TGAU A*-G	95%
Safon Uwch 2024	
A*-A	34%
A*-C	81%
A*-E	98%

Niferoedd Dysgwyr

Croesawyd 191 o ddysgwyr newydd i Flwyddyn 7 a daeth 81 o fyfyrwyr yn ôl i ymuno â'r Chweched Dosbarth a Phartneriaeth Chweched Gŵyr / Bryn Tawe. Cyfanswm presennol poblogaeth yr ysgol felly ar gyfer 2024-25 yw 1,139 o ddysgwyr.

Newyddion am Staff

Croesawn athrawon newydd yn gynnes i'r ysgol, sef Sara Horan (Pennaeth yr Adran Ieithoedd Rhyngwladol), Carys Bryant (Pennaeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol) a Rhys Evans (Athro Addysg Gorfforol). Yn ogystal, mae Elina Rees yn ymuno fel swyddog cefnogi darllen, Nikolas Legakis fel technegydd gwyddoniaeth a Lowri Mair Davies fel swyddog trochi'r Gymraeg. Dymunwn y gorau oll iddynt yn eu swyddi. Hoffwn ddiolch hefyd i nifer o staff a'n gadawodd ar ddiwedd y flwyddyn ysgol ddiwethaf am eu gwasanaeth ardderchog, ac yn arbennig Dai Long, Janette Davies a Sioned Parry. Bu Mr Long yn athro yn yr ysgol am dros 30 mlynedd a Mrs Davies am dros 20 mlynedd. Dymunwn i'r ddau ohonynt ymddeoliad hir a hapus. Dymunwn hefyd bob hwyl i Mrs Parry yn ei hysgol newydd.

Cydweithio â Rhieni/Warcheidwad

Un o gryfderau mawr yr ysgol yw'r berthynas glos ac adeiladol a fodola rhwng ysgol a chartref, a braf yw nodi ym mhob arolwg rhieni bod canran uchel ohonoch yn teimlo'n hapus gyda darpariaeth yr ysgol. Byddwn yn gweithio'n galed unwaith eto yn 2024-25 i gynnal hwn. Os oes cwestiynau neu ymholiadau penodol gennych am eich plentyn, mae modd i chi gysylltu gyda'r Pennaeth Blwyddyn perthnasol:

Pennaeth: Mr Jeffrey Connick BA
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk | https://www.yggwyr.org.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
Heartbeat Award Gwobr Curiad Calon
Challenge Award nace 2015–2025
QS
SportsMarc NPFA
360safe Cymru Cynnydd i Ddiogelwch Ar-lein

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

Bl 7-Angharad Stephens – **01792 977107-** StephensA108@hwbcymru.net
Bl 8- Lloyd Henry-**01792 977108**- HenryA12@hwbcymru.net
Bl 9 - Sioned James –**01792 977109** – JamesS252@hwbcymru.net
Bl 10-Gwenallt Jones – **01792 977110** –JonesG1235@hwbcymru.net
Bl 11 – Emyr Myers – **01792 977111** MyersE16@hwbcymru.net
Bl12/13 -Annette Tilson – **01792 977113** - TilsonA1@hwbcymru.net

Mae modd i chi yn ogystal i gysylltu â swyddog dysgu a lles y Penaethiaid Blwyddyn, sef Siwan Davies, drwy dderbynfa'r Ysgol **(01792 872403)** a fydd hefyd yn medru eich cynorthwyo.

Cronfa Ysgol Wirfoddol

Fel a nodwyd yn fy llythyr at rieni/gwarcheidwaid ar ddechrau tymor y Pasg 2024, ein bwriad o Fedi 2024 yw sefydlu Cronfa Ysgol Wirfoddol. Gofynnaf felly i chi ystyried cyfrannu yn wirfoddol £10 y tymor i'r gronfa hon os oes gyda chi blentyn yn yr ysgol, sef £30 y flwyddyn (Os oes gyda chi ail blentyn, gofynnwn i chi ystyried cyfrannu £20 y flwyddyn am y disgybl hwnnw, ac os oes gyda chi drydydd plentyn, gofynnwn am gyfraniad o £10 y flwyddyn). Gallwch dalu drwy eich cyfrif *I Pay* ysgol. Os na chredwch y gallwch gyfrannu y symiau hyn am ba reswm bynnag, byddai unrhyw gyfraniad ariannol o hyd yn cael ei werthfawrogi. Y rheswm dros sefydlu'r gronfa yw y cyd-destun ariannol heriol a wyneba'r ysgol gyda'r cyllid annigonol a geir drwy law'r Awdurdod Addysg Leol a Llywodraeth Cymru yn wyneb y cynnydd mewn costau. Os ydym i barhau i gynnig yr arlwy gwricwlaidd gyfoethog o ddysgu ac addysgu o safon uchel ar dir yr ysgol a rhaglen eang o weithgareddau allgyrsiol -sy'n cyfrannu at greu dysgwyr sy'n gwireddu eu potensial a dinasyddion rhagorol-mae'n rhaid canfod ffynonellau cyllid ychwanegol. Diolch am roi ystyriaeth i'r mater hwn.

Offer Ysgol

A fyddech mor garedig â sicrhau bod eich plentyn yn cludo cas pensiliau i'r ysgol yn ddyddiol sy'n cynnwys yr offer ysgrifennu angenrheidiol megis sgrifbin, pensiliau, rwbwr, uwcholeuwyr a phren mesur. **Mae achosion o ddysgwyr yn mynychu gwersi heb sgrifbin yn parhau, sy'n achosi tipyn o broblem.** Mae offer Mathemateg hefyd yn angenrheidiol sy'n cynnwys cyfrifiannell gwyddonol, onglydd a chwmpawd.

Gwisg Ysgol ac Eiddo Dysgwyr

Mae cydymffurfio gyda gwisg swyddogol yr ysgol yn bwysig - trowsus neu sgert ddu blaen (nid *joggers/leggings* yn ddelfrydol), esgidiau du, siwmper ddu gyda bathodyn yr ysgol neu *hoody* newydd yr ysgol **(ni chaniateir *hoody* arall)**, crys polo glas gyda bathodyn yr ysgol. A fyddech mor garedig â gosod enwau ar eiddo fel ein bod yn medru dychwelyd eiddo coll yn syth i'r perchennog. **Byddwn wir yn ddiolchgar petai pob rhiant yn medru sicrhau bod eu plant yn cydymffurfio â disgwyliadau gwisg**. Monitrir y wisg ysgol yn achlysurol a byddwn yn cysylltu gyda chi os y teimlwn fod agweddau o'r wisg yn annerbyniol. Yn ogystal, ni ddylai dysgwyr liwio'u gwallt mewn modd eithafol.

Pennaeth: Mr Jeffrey Connick BA
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk | https://www.yggwyr.org.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
Heartbeat Award Gwobr Curiad Calon
Challenge Award nace 2015–2025
QS
SportsMarc NPFA
360safe Cymru Cynnydd i Ddiogelwch Ar-lein

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

Polisi Ffonau Symudol

Rhoddir caniatâd i ddysgwyr, os dymunant, i ddod â ffôn symudol i'r ysgol yn seiliedig ar arolwg gan holl randdeiliaid yr ysgol. Fodd bynnag, ni ddylid ei ddefnyddio yn ystod y dydd ag eithrio yn y ffreutur adeg cinio/egwyl i wirio archeb bwyd. Os defnyddir ffôn heb ganiatâd, fe fydd y ffôn yn cael ei gymryd oddi ar y dysgwr gan yr athro a'i roi yn ddiogel cyn ei ddychwelyd, fel arfer cyn diwedd y dydd. Ni ddylid defnyddio'r ffôn symudol i gymryd lluniau ar safle'r ysgol ar unrhyw gyfrif. Rydym yn ymwybodol iawn o'r ddialog genedlaethol bresennol am effaith andwyol posib ffonau symunol ar bobl ifanc ac fe fyddwn yn ymgynghori ymhellach gyda'n rhanddeiliaid ynghylch ein polisi os bydd angen.

Presenoldeb

95%+ yw'r targed ar gyfer pob unigolyn. Mae colli un diwrnod o ysgol heb reswm da iawn yn tarfu ar addysg eich plentyn yn ddi-angen. Gofynnwn am eich cefnogaeth i sicrhau bod eich plentyn yn anelu i fod yn bresennol am bob dydd o Fedi tan Gorffennaf. Ni ddylai rhieni/gwarcheidwaid drefnu gwyliau yn ystod amser ysgol oherwydd byddai tebygrwydd uchel i absenoldeb y plentyn fod yn un heb awurdod. Yn ogystal, disgwylir i bob dysgwr gyrraedd yr ysgol yn brydlon erbyn 8.40am ar gyfer cofrestru. Os yw disgybl yn cyrraedd ar ôl 9.00am, sef wedi diwedd cyfnod cofrestru, bydd angen iddo/iddi gofrestru presenoldeb hwyr yn nerbynfa'r ysgol. Dylid hefyd cysylltu gyda'r ysgol yn syth i esbonio absenoldeb eich plentyn.

Gwyliau Ysgol a Diwrnodau HMS ar gyfer 2024-25

Isod mae manylion y gwyliau a'r diwrnodau HMS ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf i'ch helpu chi gyda'ch cynllunio.

Gwyliau 2024-25	
Toriad Hanner Tymor 1	Dydd Llun 28 Hydref - Dydd Gwener 1 Tachwedd 2024
Gwyliau'r Nadolig	Dydd Llun 23 Rhagfyr 2024 - Dydd Gwener 3 Ionawr 2025
Toriad Hanner Tymor 2	Dydd Llun 24 Chwefror - Dydd Gwener 28 Chwefror 2025
Gwyliau'r Pasg	Dydd Llun 14 Ebrill - Dydd Gwener 25 Ebrill 2025
Gŵyl y Banc	Dydd Llun 5 Mai 2025
Toriad Hanner Tymor 3	Dydd Llun 26 Mai - Dydd Gwener 30 Mai 2025
Gwyliau'r Haf	Ysgol yn gorffen ar Ddydd Gwener, 18 Gorffennaf 2025

Dyddiau HMS 2024-25
HMS 1 Dydd Llun 2 Medi 2024
HMS 2 Dydd Gwener 25 Hydref 2024
HMS 3 Dydd Llun 3 Mawrth 2025
HMS 4 Dydd Mawrth 4 Mawrth 2025
HMS 5 Dydd Gwener 4 Gorffennaf 2025
HMS 6 Dydd Llun 21 Gorffennaf 2025

Pennaeth: Mr Jeffrey Connick BA
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk | https://www.yggwyr.org.uk

I gloi

Gobeithir y bydd y flwyddyn ysgol sy'n ein hwynebu yn un gofiadwy wrth i ni ddathlu pen blwydd yr ysgol yn ddeugain mlwydd oed. Nodweddir y flwyddyn gan nifer o ddathliadau, y cyntaf ohonynt fydd ein sioe ysgol *Yn ôl i'r 80au* a gynhelir yn Theatr Taliesin ar gampws Prifysgol Abertawe 6-8 Tachwedd. Daw mwy o fanylion am y sioe hon maes o law. Gorffennir y flwyddyn gyda chyngerdd dathlu yn Neuadd y Brangwyn, Abertawe ar 3 Gorffennaf 2024 ac mae Elin Manahan Thomas, un o'n cyn-ddisgyblion sydd erbyn hyn yn gantores fyd-enwog, eisoes wedi cadarnhau ei bod ar gael i berfformio. Gobeithio o galon y medrwch ymuno â ni yn y dathliadau. Fodd bynnag, trwy hyn oll, gallaf sicrhau y bydd ein hymroddiad i gynnal y safonau uchaf o ran addysgu a dysgu yn parhau er budd holl ddysgwyr yr ysgol. Edrychwn ymlaen i gydweithio'n agos gyda chi fel rhieni a gwarcheidwaid yn ystod y flwyddyn.

Yn gywir,

J. Connick

Jeffrey Connick (Pennaeth)

Pennaeth: Mr Jeffrey Connick BA
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk | https://www.yggwyr.org.uk